

Tasg 1

Llwyddiant Ilithrig

Darllenwch y ddau flog isod sy'n disgrifio bywyd person ifanc yn Ne Korea, sy'n wlad rydd, a pherson ifanc yng Ngogledd Korea, sy'n wlad gomiwnyddol.

GOBAITH CHI MAI, 14 oed, PyeongChang, De Korea

O'r diwedd mae'r Gemau Olympaidd wedi cyrraedd! Rydw i a gweddill y teulu wedi bod yn edrych ymlaen yn fawr at y digwyddiad ers i ni glywed fod Gemau Olympaidd y Gaeaf yn dod i PyeongChang. Mae'n anrhydedd fawr i bawb yn Ne Korea ac mae'r holl waith adeiladu sydd wedi bod yn digwydd o gwmpas y ddinas, yn cynnwys y trên cyflym newydd i Seoul, wedi bod yn gyffrous iawn. Mae'r Stadiwm Olympaidd yn edrych yn wych ac mae digon o le i'r athletwyr aros yma hefyd.

Yr unig gysgod ar y gorwel yw Gogledd Korea. Er bod rhai o'n teulu ni yn dal i fyw yno, dydyn ni ddim wedi cael eu gweld nhw ers blynyddoedd lawer. Mae'n anodd ofnadwy cael hawl croesi'r ffin o'r Gogledd. Mae chwaer Dad yn byw ym mhrifddinas y wlad, Pyongyang, sydd ond rhyw awr o daith o PyeongChang, ond does neb o'r teulu wedi siarad â hi ers bron ddeg mlynedd. Dydyn ni ddim yn gallu ei ffonio hi a dydyn ni ddim chwaith yn siŵr os yw ein llythyron ni'n ei chyrraedd hi drwy'r post. Mae pethau'n wahanol iawn yno dan eu system gomiwnyddol nhw. Rhaid dweud 'mod i'n falch iawn nad ydw i'n byw yng Ngogledd Korea am nad oes gan bobl yno yr un rhyddid a'r cyfleoedd sydd gyda ni fan hyn yn y De ers diwedd Rhyfel Korea bron saith deg mlynedd yn ôl.

Er bod Kim Jong Un yn dweud ei fod e'n cefnogi Gemau Olympaidd y Gaeaf yma yn PyeongChang, a'i fod yn bwriadu anfon athletwyr i gystadlu gyda ni, mae llawer o bobl De Korea'n ddrwgdybus iawn ohono. Wedi'r cwbl, pan oedd Gemau Olympaidd yr Haf yn ninas Seoul yn 1988, fe ffrwydrodd Gogledd Korea awyren oedd ar y ffordd o Bagdad i'r Gemau, gan ladd yr holl bobl oedd arni, a hynny am fod De Korea wedi gwrthod yr hawl iddyn nhw helpu i gynnal y Gemau. Bydd rhaid i ni aros i weld beth fydd yn digwydd y tro hwn!

GOBAITH YUNG SO, 14 oed, Pyongyang, Gogledd Korea

Rydw i'n gwybod 'mod i'n mentro ysgrifennu'r blog yma, ond allwn i ddim peidio. Petai'r awdurdodau yma yng Ngogledd Korea'n gwybod 'mod i'n siarad â chi, baswn i mewn trwbwl mawr. Dydyn nhw ddim eisiau i neb sy'n byw yma gael cysylltiad â'r byd mawr y tu allan. Maen nhw eisiau i ni gredu fod popeth yn berffaith yng Ngogledd Korea.

Ond 'ta beth, rydw i mor gyffrous! O'r diwedd, mae llygedyn o obaith i'r dyfodol! Mae athletwyr o Gogledd Korea'n mynd i gael cystadlu yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf, a hynny gyda thîm athletwyr De Korea. Diolch i Kim Jong Un, wrth gwrs! Mae'n hen bryd i'r ddwy wlad ddod yn ffrindiau unwaith eto. Mae'r holl gweryla sydd wedi bod ers Rhyfel Korea'n boenus

dros ben – yn enwedig i ni yma yn y Gogledd. Mae'r unig sianel deledu ddiflas sydd gyda ni yma'n dweud mai Gogledd Korea yw'r wlad orau a'r fwyaf pwerus yn y byd. Does gan neb arall fyddin mor drefnus nac arfau niwclear mor effeithiol â ni, ac am hynny, fe ddylen ni fod yn hapus dros ben.

Ond er eu bod nhw'n trio'u gorau, dydy pawb yma ddim yn hapus bob amser. Mae pawb yn gweithio'n galed ond does braidd neb yn gwenu am fod arian mor brin. Dydy'r llywodraeth ddim yn annog pobl i fynd dros ben llestri a bod yn hapus a gwario arian. Maen nhw'n credu mai gwaith caled sy'n gwneud pobl yn hapus. Mae sôn fod pobl De Korea'n cael llawr o sbort a sbri gan fod gyda nhw lawer iawn o bethau i'w cadw nhw'n brysur, heblaw gwaith. Dyna pam mae cymaint o bobl yma'n poeni am ein hathletwyr ni. Beth os byddan nhw'n dechrau meddwl, am ryw reswm, fod De Korea'n wlad well ac yn penderfynu aros yno a pheidio â dod nôl yma i'r Gogledd? Beth os bydd rhywrai'n penderfynu ymosod arnyn nhw a dial oherwydd rhai o'r pethau mae sôn fod Gogledd Korea wedi eu gwneud dros y blynyddoedd? Gallai pethau felly ddigwydd, yn ôl y llywodraeth.

Rydw i'n gobeithio'n fawr y byddwn ni'n gallu gweld Gemau Olympaidd y Gaeaf ar y teledu yma yn Pyongyang. Weithiau, mae'r trydan yn pallu am ddyddiau ar y tro a does gyda ni ddim radio na'r rhyngwyd i droi atyn nhw. Mae rhai pobl yn trio defnyddio'r we yn dawel bach er mwyn gweld beth sy'n digwydd yn y byd y tu hwnt i Ogledd Korea, ond os daw'r awdurdodau i wybod, mae'r bobl hynny'n diflannu, a does dim sôn amdany'n nhw byth wedyn.

Ond, allwn ni ond edrych ymlaen a gobeithio'r gorau i Ogledd Korea a'i hathletwyr dawnus.

	GEIRFA	
CYMRAEG	DISGRIFIAD	SAESNEG
arfau niwclear	bomiau peryglus a chreulon sy'n gallu dinistrio a lladd miloedd o bobl ar y tro	nuclear weapons
awdurdodau	y bobl sy'n penderfynu ar reolau a deddfau y mae'n rhaid i bobl eu dilyn	authorities

Nawr, darllenwch drwy'r ddau ddarn eto, gan danlinellu'r canlynol:

- ansoddeiriau
- geiriau negyddol, h.y. y geiriau sy'n awgrymu bod pethau ddim yn dda
- geiriau cadarnhaol neu bositif, h.y. y geiriau gobeithiol.

Wedyn, llenwch y siart ar y dudalen nesaf gan nodi rhai o'r prif wahaniaethau rhwng bywyd Chi Mai yn Ne Korea a bywyd Yung So yng Ngogledd Korea, yna nodwch beth sy'n debyg rhyngddyn nhw.

